OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2014 Rhif 595 (Cy. 71)

2014 No. 595 (W. 71)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

TRANSPORT, WALES

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014

The Public Transport Users' Committee for Wales (Abolition) Order 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru, a sefydlwyd o dan erthygl 3 o Orchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Nid oes unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi mewn perthynas â'r offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw gost i fusnesau na'r sector gwirfoddol.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order abolishes the Public Transport Users' Committee for Wales, established under article 3 of the Public Transport Users' Committee for Wales (Establishment) Order 2009 by virtue of sections 8 and 9 of the Transport (Wales) Act 2006.

No regulatory impact assessment has been prepared in respect of this instrument as no cost to the business or voluntary sector is foreseen.

2014 Rhif 595 (Cy. 71)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014

Gwnaed	*12 Mawrth 2014*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*13 Mawrth 2014*
Yn dod i rym	*15 Ebrill 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 8 a 9 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014 a daw i rym ar 15 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Gorchymyn 2009" ("*the 2009 Order*") yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**3**)

(**1**) 2006 p.5.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2009/2816 (Cy.243), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/2915 (Cy.255).

2014 No. 595 (W. 71)

TRANSPORT, WALES

The Public Transport Users' Committee for Wales (Abolition) Order 2014

Made	*12 March 2014*
Laid before the National Assembly for Wales	*13 March 2014*
Coming into force	*15 April 2014*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by sections 8 and 9 of the Transport (Wales) Act 2006(**1**), and now vested in them(**2**) make the following Order:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Public Transport Users' Committee for Wales (Abolition) Order 2014 and it comes into force on 15 April 2014.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order—

"the 2009 Order" ("*Gorchymyn 2009*") means the Public Transport Users' Committee for Wales (Establishment) Order 2009(**3**)

(**1**) 2006 c.5.
(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.
(**3**) S.I. 2009/2816 (W.243), as amended by S.I. 2009/2915 (W.255).

Diddymu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru

3.—(1) Mae Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru a sefydlwyd o dan erthygl 3 o Orchymyn 2009, wedi ei ddiddymu; a

(2) mae Gorchymyn 2009 drwy hyn wedi ei ddirymu.

Abolition of the Public Transport Users' Committee for Wales

3.—(1) The Public Transport Users' Committee for Wales established under article 3 of the 2009 Order is abolished; and

(2) the 2009 Order is hereby revoked.

Edwina Hart

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2014

Minister for the Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers

12 March 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2014 Rhif 595 (Cy. 71)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Diddymu) 2014

2014 No. 595 (W. 71)

TRANSPORT, WALES

The Public Transport Users' Committee for Wales (Abolition) Order 2014

ISBN 978-0-348-10918-4

9 780348 109184

£4.00

W1899/03/14 ON